
NHS
Test and Trace

**Darllenwch y canllaw cyfan yn ofalus cyn dechrau'r prawf.**
**Efallai y bydd y prawf yma'n wahanol i'r rhai a ddefnyddioch yn flaenorol.**

# Eich canllaw cam wrth gam i'r Casét Prawf Cyflym Antigenau SureScreen SARS-CoV-2

## (Swab Trwynol) (Aur)




Mae'r cyfarwyddiadau hyn ar gyfer y Casét Prawf Cyflym Antigenau SARS-CoV-2 (Swab Trwynol) (Aur) SureScreen Diagnostics, Cod Cynnyrch: COVID19AGVCGS7. Mae'r canllaw yn esbonio sut i brofi eich hun, eich plentyn neu unigolyn arall am y COVID-19, a sut i adrodd eich canlyniadau.

Mae fersiynau ar gael mewn ieithoedd eraill, ynghyd ag arddangosiadau fideo ar: **gov.uk/covid19-self-test-help**

**Adroddwch eich holl ganlyniadau prawf i'r GIG**

# Beth sydd angen i chi ei wneud

## Eich canllaw cam wrth gam

Darllenwch trwy’r cyfarwyddiadau’n ofalus a dilyn y camau yn y drefn gywir. Mae pob prawf yn cymryd tua 15 munud i baratoi a bydd y canlyniadau'n barod ar ôl 10 munud.





| | | |
|---|---|---|
| **1** | Paratoi lle ar gyfer eich prawf a gwirio cynnwys eich pecyn prawf | tudalen 6 |
| **2** | Paratoi eich prawf | tudalen 8 |
| **3** | Cymryd eich sampl swab | tudalen 10 |
| **4** | Prosesu’r sampl swab | tudalen 12 |
| **5** | Darllen eich canlyniad | tudalen 14 |
| **6** | Adrodd am eich canlyniad | tudalen 15 |
| **7** | Beth mae eich canlyniadau'n ei olygu | tudalen 16 |
| **8** | Perfformiad y Prawf | tudalen 17 |
| **9** | Gwaredu’ch pecyn prawf yn ddiogel | tudalen 17 |


**Nid yw tua 1 o bob 3 o bobl sydd â COVID-19 yn gwybod ei fod ganddynt.**

Mae’r llyfryn cyfarwyddiadau hwn yn cyfeirio at y Casét Prawf Cyflym Antigenau SureScreen SARS-CoV-2 (Swab Trwynol) (Aur)

# Cyngor ar gymryd y prawf

## Canllaw Storio a Thrin

- Storiwch fel y mae wedi ei becynnu ar dymheredd ystafell (2-30°C). Peidiwch â’i rewi.
- Dylech ddefnyddio'r pecyn ar dymheredd ystafell (15°C i 30°C). Os yw'r pecyn wedi'i storio mewn lle oer (dan 15°C), gadewch ef ar dymheredd ystafell am 20 munud cyn ei ddefnyddio.
- Defnyddiwch becyn ar wahân ar gyfer pob unigolyn. Dim ond unwaith y gallwch ddefnyddio pob eitem yn y pecyn prawf. Peidiwch ag ail-ddefnyddio’r eitemau. Bydd angen i chi adrodd canlyniad pob unigolyn.
- Os oes gennych broblemau gyda'ch dwylo neu'ch golwg, efallai y bydd angen cymorth rhywun arall arnoch gyda'r broses swabio a phrofi.
- Os ydych chi wedi tyllu’ch trwyn, tynnwch y darn cyn cyflawni'r prawf.
- Peidiwch â defnyddio samplau gwaedlyd. Os ydych wedi cael gwaedlif o'r trwyn o fewn y 24 awr diwethaf, dylech aros 24 awr cyn gwneud prawf.
- Peidiwch â chyffwrdd blaen y swab wrth ei drin.
- Dylech osgoi cyffwrdd â chit y prawf ac ardal y ffenestr canlyniadau ble mae’r sampl yn cael ei roi.

## Rhybuddion

- Peidiwch â defnyddio tu hwnt i'r dyddiad dod i ben. Dilynwch y dyddiad dod i ben ar y blwch.
- Dylai'r casét aros yn y pecyn wedi ei selio nes byddwch yn barod i’w ddefnyddio.
- Dim ond at ddefnydd dynol y mae'r pecynnau prawf hyn wedi'u cynllunio.
- Peidiwch â defnyddio unrhyw chwistrell trwyn am 15 munud cyn profi.
- Nid yw’r cynnyrch wedi ei greu gyda latecs rwber naturiol, fodd bynnag ni ellir eithrio presenoldeb neu olion latecs rwber naturiol yn y cynnyrch fel y mae wedi ei ddarparu i’r defnyddiwr terfynol yn llwyr.

**Dilynwch y cyfarwyddiadau hyn yn ofalus, efallai y bydd y prawf yma’n wahanol i'r rhai a ddefnyddioch yn flaenorol.**

Cod Cynnyrch: COVID19AGVCGS7

# Ynglŷn â'r prawf hwn

## Pam ddylech chi wneud hunan-brawf

Mae'r pecyn hunan-brawf COVID-19 yma yn brawf swab ar gyfer y trwyn. Gall pobl heb unrhyw symptomau ei ddefnyddio, fodd bynnag, dylech ddilyn canllawiau cenedlaethol i wirio pa fath o brawf sy'n addas i chi.

## Os byddwch yn derbyn canlyniad positif ar gyfer COVID-19 dylech:

- helpu cyfyngu ar ledaeniad y clefyd, dylech chi a'ch aelwyd ddilyn canllawiau cyfredol y llywodraeth: **nhs.uk/conditions/coronavirus-covid-19/self-isolation-and-treatment/**
- gynghori'r rhai rydych chi wedi bod mewn cysylltiad agos â nhw a lleoliadau rydych chi wedi ymweld â nhw yn ystod y 48awr cyn i'ch symptomau gychwyn, neu o'r diwrnod pan ddangosir canlyniad prawf positif os nad oes symptomau, y dylent gael prawf ar gyfer haint COVID-19 posibl. Dilynwch ganllawiau lleol a chenedlaethol ar bob adeg.

### Os byddwch yn derbyn canlyniad negatif ar gyfer COVID-19

Mae'n debygol nad oeddech chi'n heintus pan wnaed y prawf. Fodd bynnag, nid yw canlyniad prawf negatif yn sicrwydd nad oes gennych y coronafeirws. Dylech barhau i ddilyn canllawiau'r llywodraeth.

**CYNGOR**

**Peidiwch ag oedi cyn gofyn am help os ydych yn poeni. Dilynwch eich greddf.**

Os oes gennych chi symptomau COVID-19 neu os ydych chi wedi dal COVID-19, dilynwch ganllawiau'r GIG: **nhs.uk/conditions/coronavirus-covid-19/**

Os oes gennych chi symptomau COVID-19 ac mae eich cyflwr yn gwaethygu, neu os na fyddwch chi'n gwella wedi saith niwrnod, defnyddiwch wasanaeth coronafeirws ar-lein 111 y GIG **111.nhs.uk**


Os nad oes gennych chi fynediad i'r rhyngrwyd, ffoniwch **NHS 111.**

Mewn argyfwng meddygol, ffoniwch **999.**

Gallwch gael rhagor o gyngor am symptomau COVID-19 mewn plant ar: **nhs.uk/conditions/coronavirus-COVID-19/symptoms/coronavirus-in-children/**


Mae'r llyfryn cyfarwyddiadau hwn yn cyfeirio at y Casét Prawf Cyflym Antigenau SureScreen SARS-CoV-2 (Swab Trwynol) (Aur)

# Ar gyfer pwy mae'r prawf yma'n addas




### Oedolion 18+ oed

Hunan-brofi ac adrodd, gyda chymorth os oes angen.



### Pobl ifanc rhwng 12 -17 oed

Hunan-brofi ac adrodd gyda chymorth oedolyn os oes angen. Gall yr oedolyn gyflawni'r prawf fel fo angen.



### Plant dan 12

Dylai oedolyn brofi plant dan 12 oed. Peidiwch â chynnal y prawf hwn os ydych yn teimlo'n anghyfforddus yn cynnal y prawf ar blentyn. Peidiwch â pharhau gyda'r prawf os yw'r plentyn yn teimlo unrhyw anghysur arwyddocaol neu boen.

## Pa mor aml i brofi

Gall pa mor aml y dylech brofi amrywio yn ôl eich amgylchiadau a beth yw'r canllawiau cenedlaethol neu leol ar y pryd.

## Ble i ddod o hyd i gymorth ychwanegol

Gallwch gael rhagor o wybodaeth am hunan-brofi ar: **gov.uk/covid19-self-test-help**

Mae'r llyfryn cyfarwyddiadau hwn yn cyfeirio at y Casét Prawf Cyflym Antigenau SARS-CoV-2 (Swab Trwynol) (Aur), cod cynnyrch: COVID19AGVCGS7.


# 1. Paratoi eich ardal brawf

**PWYSIG**


Dylech ddefnyddio'r pecyn ar dymheredd ystafell (15°C i 30°C). Os yw'r pecyn wedi'i storio mewn lle oer (dan 15°C), gadewch ef ar dymheredd ystafell am 20 munud cyn ei ddefnyddio.




Peidiwch â defnyddio unrhyw chwistrell trwyn am 15 munud cyn profi




Byddwch angen: amserydd (fel oriawr neu gloc), hancesi papur, hylif diheintio dwylo neu sebon a dŵr cynnes.



1. Darllenwch y canllaw cyfarwyddyd hwn yn ofalus.



2. Cliriwch, glanhewch a sychwch arwyneb gwastad yn syth cyn cychwyn y prawf.





3. Golchwch eich dwylo'n drylwyr am 20 eiliad, gan ddefnyddio sebon a dŵr cynnes, neu hylif diheintio dwylo.


Mae’r llyfryn cyfarwyddiadau hwn yn cyfeirio at y Casét Prawf Cyflym Antigenau SureScreen SARS-CoV-2 (Swab Trwynol) (Aur)

# Gwiriwch gynnwys eich pecyn

**4** Yn eich blwch pecyn profi, fe ddylech weld:




Blwch allanol gyda daliwr tiwb




Casetiau profi mewn pecynnau wedi selio




Bagiau bychan (Ffiolau byffer echdynnu)




Tiwbiau echdynnu



Cyfarwyddiadau defnydd (y llyfryn hwn)



Bagiau gwastraff plastig



Swabiau

## CYNGOR

**Beth i'w wneud os yw rhywbeth wedi ei ddifrodi, torri neu ar goll**


Os byddwch yn sylwi bod unrhyw beth wedi ei ddifrodi, torri neu ar goll, peidiwch â defnyddio'r pecyn profi. Gallwch roi adborth trwy ffonio'r ganolfan gyswllt i gwsmeriaid. Mae llinellau ar agor bob dydd, rhwng 7am ac 11pm.

Ffoniwch: **119** (am ddim o ffonau symudol a llinellau tir).
Rydym yn cynnig cefnogaeth mewn 200 o ieithoedd, yn ogystal ag Iaith Arwyddion Prydain.

Os byddwch yn cael eich niweidio gan ddyfais; adroddwch i: **coronavirus-yellowcard.mhra.gov.uk**

Cod Cynnyrch: COVID19AGVCGS7

# 2. Paratoi eich prawf








**5** Tynnwch y casét prawf o'r pecyn wedi'i selio a'i osod ar yr arwyneb gwastad glân.

**RHYBUDD**

Wedi ei agor, rhaid ei ddefnyddio o fewn 1 awr, neu bydd y prawf yn ddi-rym. Taflwch y casét a chynnwys y bag bach os ydynt wedi bod tu allan i'r bag wedi selio ers mwy nag 1 awr.



**6** Rhowch y tiwb echdynnu yn y daliwr tiwb echdynnu (yr ardal crwn tyllog ar gaead y blwch) i osgoi arllwys yr hylif.




**7** Gyda gofal, rhowch dro i dorri sêl cynhwysydd yr hylif. Agorwch yn ddigon pell o'ch wyneb a gofalwch beidio â gollwng unrhyw hylif.

**RHYBUDD**

Mae'r byffer echdynnu yn cynnwys deunydd a allai achosi llid os daw i gysylltiad â'r wyneb neu groen. Os yw'r toddiant yn dod i gysylltiad â'r croen neu lygad, golchwch gyda digon o ddŵr. Os bydd y croen yn cosi, mynnwch sylw




**8** Agorwch y tiwb echdynnu ac yn ofalus iawn, gwasgwch yr holl hylif o'r bag bach i'r tiwb.

Cymerwch ofal a rhoi'r bag hylif gwag yn y bag gwastraff plastig a ddarparwyd.




**9** Chwythwch eich trwyn yn ysgafn gan ddefnyddio hances bapur, a thaflwch yr hances mewn bin wedi cau.

Os ydych chi'n helpu rhywun arall neu'n profi plentyn, helpwch nhw i chwythu eu trwyn a thaflu'r hances bapur mewn bin gyda chaead.




**10** Golchwch eich dwylo'n drylwyr eto am 20 eiliad, gan ddefnyddio sebon a dŵr cynnes neu gallwch ddefnyddio hylif diheintio.


Os ydych chi'n helpu rhywun arall neu'n cynnal prawf ar blentyn helpwch ef neu hi i olchi ei ddwylo/dwylo.




**11** Chwiliwch am y swab yn y pecyn wedi ei selio o'ch blaen. Nodwch y pen ffabrig, meddal.

**PWYSIG**

Peidiwch â chyffwrdd blaen meddal, ffabrig y swab. Os yw blaen ffabrig y swab wedi ei gyffwrdd, taflwch y swab




**12** Agorwch ddeunydd pacio'r swab yn ofalus o'r pen arall, pan fyddwch yn barod i'w ddefnyddio yn unig.


Cod Cynnyrch: COVID19AGVCGS7

# 3. Cymryd eich sampl


**Os ydych chi'n profi rhywun arall, gweler y cyfarwyddiadau ar dudalen 11.**

**PWYSIG**

Dylid cyflawni'r prawf yn defnyddio sampl trwyn yn unig.





**13** Rhowch flaen ffabrig y swab tu fewn i un ffroen (tua 1.5cm i fyny eich trwyn).




**14** Trowch y swab yn ofalus o amgylch tu fewn i'ch ffroen mewn symudiad cylchol **5 gwaith** am o leiaf **5 eiliad.**

Tynnwch y swab yn araf. Nid oes angen defnyddio grym a does dim rhaid i chi wthio'n rhy bell i'ch ffroen. Peidiwch â dychwelyd y swab i'r deunydd pacio papur gwreiddiol.





**15** Gan ddefnyddio'r un swab, rhowch flaen y swab ffabrig tu fewn i'r ffroen arall (tua 1.5cm i fyny eich trwyn.)

Trowch y swab yn ofalus o amgylch tu fewn i'ch ffroen mewn symudiad cylchol **5 gwaith** am o leiaf **5 eiliad.**


# Gwneud prawf ar rywun arall

**CYNGOR**


Dylai oedolyn brofi plant dan 12. Dilynwch y canllawiau isod ar sut i baratoi a phrofi plentyn. Gallwch wylio fideo arddangos ar **gov.uk/covid19-self-test-help**




**13** Os ydych chi'n profi plentyn, dangoswch y pecyn prawf iddynt a thrafod beth fyddwch chi'n ei wneud. Os yn bosibl, rhowch nhw i eistedd ar lin rhywun neu gael rhywun i ddal eu llaw.




**14** Rhowch flaen ffabrig y swab ychydig tu mewn i'w ffroen (hyd at 1.5cm), neu nes byddwch yn teimlo gwrthiant. Trowch y swab yn ofalus o amgylch tu fewn i'w ffroen mewn symudiad cylchol **5 gwaith** am o leiaf **5 eiliad.** Tynnwch y swab yn araf. Nid oes angen defnyddio grym a does dim rhaid i chi wthio'n rhy bell i'w ffroen. Peidiwch â dychwelyd y swab i'r deunydd pacio papur gwreiddiol.




**15** Gan ddefnyddio'r un swab, rhowch flaen y swab ffabrig tu fewn i'w ffroen arall (hyd at 1.5cm) neu nes byddwch yn teimlo gwrthiant.


Trowch y swab yn ofalus o amgylch tu fewn i'w ffroen mewn symudiad cylchol **5 gwaith** am o leiaf **5 eiliad.**

Cod Cynnyrch: COVID19AGVCGS7

# 4. Prosesu'r sampl swab

**AWGRYM**


I gael y perfformiad gorau, profwch y swab cyn gynted â phosibl wedi casglu eich sampl.




**16** Codwch y tiwb echdynnu a rhoi blaen ffabrig y swab yn y tiwb echdynnu, fel ei fod yn yr hylif.


Gwasgwch ben y swab yn gadarn yn erbyn tu fewn corff y tiwb trwy binsio gwaelod y tiwb gyda'ch bysedd a bawd.

Tra'n pinsio, trowch y swab am o leiaf 10 eiliad.





**17** Codwch y swab trwynol yn ofalus, ac yna torri'r swab ar y safle "pwynt torri". Gadewch ben y swab yn y tiwb echdynnu.

Rhowch handlen y swab yn y bag plastig gwastraff a ddarperir.




**18** Gosodwch gaead y diferydd yn dyn ar ben y tiwb echdynnu.



**19** Sicrhewch fod y casét prawf ar arwyneb glân a gwastad.


Peidiwch â symud y casét yn ystod y prawf.




**20** Gwasgwch y tiwb echdynnu yn ofalus i roi 3 ddiferyn o'r hylif yn y ffynnon sampl (S) ar y stribed profi.

Gwnewch yn siŵr eich bod yn gollwng hylif ac nid swigen aer.

Rhowch y tiwb echdynnu yn y bag plastig gwastraff a ddarparwyd.




**21** Dechreuwch amserydd ac aros 10 munud cyn darllen y canlyniad.

Peidiwch â symud y prawf unwaith y bydd wedi cychwyn. Dehonglwch y canlyniad wedi 10 munud. Peidiwch â darllen wedi 20 munud.

Rhaid i chi aros am yr amser datblygu llawn o 10 munud cyn i chi ddarllen canlyniad y prawf.

Cod Cynnyrch: COVID19AGVCGS7

# 5. Darllen eich canlyniad


**PWYSIG**




Arhoswch am 10 munud i ddarllen y canlyniad.



Peidiwch â gadael i'r prawf ddatblygu am fwy nag **20 munud**. Bydd hyn yn gwneud y canlyniad yn annilys.





## Canlyniad positif

Mae dwy linell yn ymddangos. Dylai un llinell lliw fod yn ardal y llinell reoli (C), a llinell lliw arall yn ardal y llinell brawf (T).

**Mae dwy linell, un wrth ymyl C ac un wrth ymyl T, hyd yn oed os ydynt yn llinellau gwan, yn dangos bod canlyniad y prawf yn bositif.**


**PWYSIG**

Os bydd eich canlyniad yn bositif, dylech hunanynysu a dylai eich aelwyd ddilyn canllawiau'r llywodraeth ar hunanynysu: **nhs.uk/conditions/coronavirus-covid-19/self-isolation-and-treatment/**




## Canlyniad negatif

Mae un llinell lliw yn ymddangos yn yr ardal llinell reoli (C). Does yna ddim llinell liw yn ymddangos yn y rhanbarth llinell brawf (T).





## Canlyniad annilys

Nid yw'r llinell rheoli (C) yn ymddangos.

Mae'r llyfryn cyfarwyddiadau hwn yn cyfeirio at y Casét Prawf Cyflym Antigenau SureScreen SARS-CoV-2 (Swab Trwynol) (Aur)

# 6. Adrodd eich canlyniad

## Dylech adrodd eich canlyniadau positif, negatif neu annilys i'r GIG





Mae cofnodi canlyniad pob prawf yn helpu gwyddonwyr i nodi achosion newydd o'r firws a chynghori ar sut i ymateb.

Os mai dim ond canlyniadau positif a adroddir arnynt, mae lefelau achosion yn ymddangos i fod yn uwch nag ydynt mewn gwirionedd. Felly hyd yn oed os yw'ch canlyniad yn negatif neu'n annilys, dylech sicrhau bod gwybodaeth y GIG yn gywir. Mae angen y cod QR, neu'r rhif adnabod sydd o dan i adrodd eich canlyniad.



Adrodd ar-lein (cyflymaf).
Os ydych yn byw yng Nghymru, Lloegr neu Ogledd Iwerddon, ewch i **gov.uk/report-covid19-result**

Os ydych chi'n byw yn yr Alban
ewch i **covidtest.scot**




Neu, adrodd dros y ffôn.

Os na allwch chi adrodd eich canlyniad ar-lein, ffoniwch **119** (am ddim o ffonau symudol a llinellau tir).

Mae llinellau ar agor bob dydd. 7am i 11pm.

Cod Cynnyrch: COVID19AGVCGS7

# 7. Beth mae eich canlyniadau'n ei olygu

## Dim ond wedi i chi roi gwybod am eich canlyniad fyddwch chi wedi cwblhau eich prawf

### Canlyniad positif

Os byddwch yn cael canlyniad positif, mae’n debygol eich bod wedi eich heintio â COVID-19 ar hyn o bryd a bod perygl y byddwch yn heintio eraill. Dylech hunanynysu. Pan fyddwch yn adrodd eich canlyniad, byddwch yn cael rhagor o wybodaeth ar y camau nesaf i'w cymryd.

**RHYBUDD**

Dylech chi, ac unrhyw un sy'n byw gyda chi, ddilyn y canllaw cenedlaethol a lleol cyfredol. Gellir dod o hyd iddo yn: **nhs.uk/conditions/coronavirus-covid-19/self-isolation-and-treatment/**

### Canlyniad Negatif

Os byddwch yn cael canlyniad negatif, mae’n debygol nad oeddech chi'n heintus ar yr adeg pan gymeroch y prawf. Fodd bynnag, **nid yw canlyniad prawf negatif yn sicrwydd nad oes gennych COVID-19.**

Os yw canlyniad y prawf yn negatif, mae’n rhaid i chi barhau i ddilyn rheolau a chanllawiau cenedlaethol a lleol, gan gynnwys golchi dwylo’n rheolaidd, cadw pellter cymdeithasol a gwisgo gorchudd wyneb lle mae angen gwneud hynny.

Os byddwch chi'n datblygu symptomau, dylech hunanynysu a chael y prawf a argymhellir ar hyn o bryd ar: **gov.uk/get-coronavirus-test** neu trwy ffonio’r ganolfan gyswllt cwsmeriaid ar 119. Mae llinellau ar agor bob dydd, rhwng 7am ac 11pm.

Dylech chi a’ch aelwyd ddilyn canllawiau cenedlaethol.

## Canlyniad annilys

Os byddwch yn cael canlyniad annilys, mae hyn yn golygu na chafodd y prawf ei gyflawni'n gywir ac nad yw'n bosibl i ni ddweud a oedd y feirws arnoch pan gynhaliwyd y prawf. Bydd angen i chi ddefnyddio prawf arall o'r pecyn cyn gynted â phosibl. Peidiwch ag ail-ddefnyddio unrhyw beth o'r pecyn profi a chychwynnwch weithdrefn y prawf o gam 1.

Os yw'r broblem yn parhau, stopiwch ddefnyddio'r pecyn profi ar unwaith. Archebwch becyn newydd o brofion trwy droi at: **gov.uk/get-coronavirus-test** , trwy Ap COVID-19 y GIG neu trwy ffonio eich canolfan gyswllt cwsmeriaid ar **119**. Mae llinellau ar agor bob dydd, rhwng 7am ac 11pm.

## 8. Perfformiad Prawf

Mae'r prawf yn fwy tebygol o roi canlyniad positif os oes gan rywun lefelau uchel o goronafeirws (COVID-19). Mae hyn yn golygu ei fod yn fwy tebygol o ddarganfod y bobl sy'n heintus ar hyn o bryd sydd angen hunanynysu ar unwaith.

## 9. Gwaredu'ch pecyn profi yn ddiogel

Pan fyddwch wedi cwblhau eich prawf rhowch yr holl eitemau a ddefnyddiwyd yn y bag gwastraff a ddarparwyd, a rhoi hyn yng ngwastraff cyffredinol y cartref.

Golchwch eich dwylo'n drylwyr ar ôl gwaredu.

Mae'r wybodaeth yn y llyfryn hwn yn gywir ar (29 Medi 2021).
Cod cynnyrch: COVID19AGVCGS7
Enw'r cynnyrch: Casét Prawf Cyflym Antigenau SureScreen SARS-CoV-2 (Swab Trwynol) (Aur)

# Gwnewch nodyn o ganlyniadau eich profion

Mae hyn ar gyfer eich cofnodion chi eich hun. Dylech adrodd eich canlyniad i'r GIG hefyd (gweler tudalen 15 am ragor o wybodaeth). Ewch i: **gov.uk/report-covid19-result**

Os ydych chi'n byw yn yr Alban ewch i **covidtest.scot**

| Pwy gymerodd y prawf | Dyddiad | Amser | Canlyniad y prawf |
|---|---|---|---|
| | | | |
| | | | |
| | | | |
| | | | |
| | | | |
| | | | |
| | | | |

# Mae eich pecyn yn cynnwys y deunyddiau canlynol

| Eitemau | Pecyn o 7 |
|---|---|
| Cyfarwyddiadau defnydd (y llyfryn hwn) | 1 |
| Casetiau profi mewn pecynnau wedi selio | 7 |
| Bagiau bychan (Ffiolau byffer echdynnu) | 7 |
| Tiwbiau echdynnu | 7 |
| Swabiau | 7 |
| Bagiau gwastraff plastig | 7 |

Cod Cynnyrch: COVID19AGVCGS7

# Crynodeb o Wybodaeth Bellach

| | |
|---|---|
| Cefnogaeth ychwanegol hunanbrawf<br>Fersiynau iaith amgen ac arddangosiadau fideo<br>Canllawiau i baratoi a phrofi plentyn | gov.uk/covid19-self-test-help |
| Canllaw ar Hunanynysu a gwybodaeth triniaeth | nhs.uk/conditions/coronavirus-covid-19/self-isolation-and-treatment/ |
| Canllawiau'r GIG ar COVID-19 | nhs.uk/conditions/coronavirus-covid-19 |
| Os oes gennych chi symptomau COVID-19 ac mae eich cyflwr yn gwaethygu, neu os na fyddwch chi'n gwella wedi saith niwrnod, defnyddiwch wasanaeth coronafeirws ar-lein 111 y GIG: | 111.nhs.uk<br><br>**Neu ffoniwch GIG 111 os nad oes gennych fynediad i'r rhyngrwyd** |
| Symptomau COVID-19 mewn plant | nhs.uk/conditions/coronavirus-COVID-19/symptoms/coronavirus-in-children |
| Os byddwch yn cael eich niweidio gan ddyfais; adroddwch i: | coronavirus-yellowcard.mhra.gov.uk |
| Adroddwch ganlyniad ar-lein (Cymru, Lloegr neu Ogledd Iwerddon): | gov.uk/report-covid19-result |
| Adroddwch ganlyniad ar-lein (Yr Alban): | covidtest.scot |
| Archebwch brawf gyfredol a argymhellir: | gov.uk/get-coronavirus-test |
| Rhywbeth wedi ei ddifrodi, torri neu ar goll<br>Cefnogaeth ieithyddol (yn cynnwys Iaith Arwyddion Prydain)<br>Adrodd eich canlyniad (os nad oes gennych fynediad i'r rhyngrwyd) | **Ffoniwch 119** |

Cod Cynnyrch: COVID19AGVCGS7

# Nodiadau:

Mae’r llyfryn cyfarwyddiadau hwn yn cyfeirio at y Casét Prawf Cyflym Antigenau SureScreen SARS-CoV-2 (Swab Trwynol) (Aur)

Cod Cynnyrch: COVID19AGVCGS7

Ni chaniateir cyflenwi'r ddyfais hon ond fel rhan o waith yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol (DHSC) dan raglen Profi ac Olrhain y GIG.

SureScreen Diagnostics

**Gwneuthurwr:**
SureScreen Diagnostics
1 Prime Parkway, Prime Enterprise Park,
Derby, DE1 3QB, United Kingdom (Y Deyrnas Unedig).

Gwybodaeth swab:
Zhejiang Gongdong Medical Technology Co., Ltd.
Cyfeiriad: No.10 Beiyuan Ave., Huangyan, 318020 Taizhou, Zhejiang, People's Republic of China (Gweriniaeth Pobl Tsieina)

CE 0123

neu

Jiangsu ChangFeng Medical Industry Co., LTD
Cyfeiriad: Touqiao Town, Guangling District, Yangzhou, 225109 Jiangsu P.R. China (Tsieina)

CE 0197

**Symbolau**

| Symbol | Ystyr |
|---|---|
| 2°C – 30°C | Storiwch ar 2 – 30°C |
| STERILE EO | Diheintiwyd gan ddefnyddio ethylen ocsid |
| (Gwneuthurwr) | Gwneuthurwr |
| (Peidiwch â defnyddio) | Peidiwch â defnyddio'r cynnyrch pan fydd y pecyn wedi'i ddifrodi |
| LOT | Rhif lot |
| (Dyddiad dod i ben) | Dyddiad dod i ben |
| IVD | Dyfais feddygol ddiagnostig in vitro |
| i | Gweler y cyfarwyddiadau ar gyfer defnydd |
| Σ 7 | Cynhwysir digon ar gyfer 7 o brofion |
| (Peidiwch ag ailddefnyddio) | Peidiwch â'i ailddefnyddio |
| ⚠ | Cymerwch olwg ar yr adran 'Cyngor ar gymryd y prawf' am ganllawiau a rhybuddion cyffredinol |
| REF | Rhif catalog |

Fersiwn 5 Dyddiad dod i rym 29/09/21
Mae'r cyfarwyddiadau defnydd yma ar gyfer y Casét Prawf Cyflym Antigenau SARS-CoV-2 (Swab Trwynol) (Aur), gwneuthurwr: SureScreen Diagnostics a'r cod cynnyrch: COVID19AGVCGS7